# Canllaw defnyddiwr ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru

## Ar gyfer staff sy'n ymwneud â mabwysiadu

Cofrestr Fabwysiadu **Cymru**
Adoption Register **Wales**

Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**



# Cynnwys

Canllaw defnyddiwr ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru ........ 1
Cynnwys ........ 2
Cyflwyniad ........ 3
Cyngor Ymarfer – dod o hyd i deulu ar gyfer plentyn ........ 5
Cyngor ymarfer – gweithio â theuluoedd ........ 6
Ynghylch eich tudalen hafan ........ 7
Ychwanegu proffil mabwysiadu plentyn/grŵp brodyr/chwiorydd ........ 8
Ychwanegu proffil mabwysiadwr ........ 9
Mynd at eich achosion ........ 10
Rheoli achos ........ 10
Rheoli proffil plentyn ........ 11
Rheoli proffil teulu ........ 11
Chwilio, clustnodi a dangos diddordeb mewn proffiliau mabwysiadwyr ........ 12
Chwilio, clustnodi a dangos diddordeb mewn proffil plentyn ........ 12
Defnyddio'r dudalen diddordeb a thrafod ........ 14
Rheoli datganiadau o ddiddordeb a ddaw i chi ........ 15
Nodi bod achos yn mynd at y panel ........ 15
Nodi bod pâr wedi ei wneud ........ 15
Creu a rheoli grwpiau asiantaeth ........ 16
Creu adroddiadau ........ 17
Dileu proffil plentyn ........ 17
Dileu proffil teulu ........ 19
Rheoli hysbysiadau proffil newydd ........ 19
Rheoli gosodiadau cyfrif ........ 20
Defnyddio nodweddion cymunedol a chymorth pellach ........ 20

# Cyflwyniad

Mae’r canllaw hwn ar gyfer ymarferwyr sy’n ymwneud â chofrestru mabwysiadwyr a phlant ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru. Mae’r canllaw hwn yn egluro sut mae cofrestru gyda Link Maker (y gwasanaeth sy’n rheoli’r Gofrestr) os nad ydych eisoes wedi cofrestru (gweler tudalen 6).

Ariennir Cofrestr Mabwysiadu Cymru (CFC) gan Lywodraeth Cymru a’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sy’n ei chynnal, gyda’r nod o  helpu i baru plant gyda mabwysiadwyr.  Mae’n darparu system genedlaethol er mwyn gallu ystyried yr ystod ehangaf o gysylltiadau trwy Gymru a rhannau eraill yn y DU os yw'n briodol, a sicrhau y gellir dod o hyd i leoliad addas cyn gynted â phosibl.

Mae’n ddisgwyliad bod unrhyw fabwysiadwr a phlentyn yn cael eu hychwanegu at CFC: mabwysiadwyr o fewn mis o gael eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth sy’n gwneud y penderfyniadau a’r plant o fewn mis yn dilyn y Gorchymyn Gosod.

Link Maker yw’r gwasanaeth fydd yn rheoli’r Gofrestr yng Nghymru felly pan ddefnyddir y term ‘Cofrestr’ yn y canllaw hwn, byddwch yn gwybod mai at Link Maker rydym yn cyfeirio.

Mae CFC yn darparu awyrgylch ddiogel a saff i chwilio am broffiliau plant a theuluoedd, i fynegi diddordeb mewn lleoliadau posibl, dechrau trafodaethau ac anfon dogfennau. Gallwch gael hysbysiadau proffil er mwyn i chi gael gweld proffiliau newydd sydd ar gael i chi a’ch teuluoedd.

Gallwch gysylltu’ch cyfrif ag achos teulu a gweithio ar y cyd â mabwysiadwyr i nodi parau posibl. Gall teuluoedd ddewis rhoi’r gallu i ymarferwyr cysylltiedig addasu eu proffil neu reoli ymholiadau ar eu rhan.

Gallwch ddefnyddio nodweddion cymunedol Link Maker i roi cyngor a chymorth i deuluoedd mabwysiadu (nid eich rhai chi yn unig) ym mhob cam yn y broses fabwysiadu. Gallwch hefyd greu digwyddiadau asiantaeth a hysbysebu’r rhain i’ch mabwysiadwyr.

Mae CFC yn ddwyieithog ac mae’n gadael i chi fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a’r Saesneg; fodd bynnag, mae’n rhaid i destun rhydd gael ei gyfieithu i’r Gymraeg cyn i’r proffil fynd yn fyw. Cyfeiriwch at y Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer defnyddio CFC sydd ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol https://adoptcymru.com/hafan/.

# Cyngor Ymarfer – dod o hyd i deulu ar gyfer plentyn

Mae CFC wedi'i gynllunio i'ch helpu i ddod o hyd i nifer addas o deuluoedd priodol sydd â diddordeb ym mhob plentyn penodol. Os nad oes digon o ddiddordeb, mae'n bosibl y cewch hi'n anodd dod o hyd i bâr digon da, ac os oes gormod o ddiddordeb gall hyn greu gwaith diangen i chi'ch hun a straen emosiynol ar nifer o deuluoedd sy'n aros. Dylai'r awgrymiadau isod eich helpu i ystyried strategaeth lwyddiannus o'r cychwyn cyntaf.

### Rheoli diddordeb

Yr hyn sy'n allweddol yw rhoi proffil ar gael yn ofalus ddim ond i'r teuluoedd yr hoffech eu hystyried. Os ydych chi'n gwybod mai dim ond gan deuluoedd mewn ardal benodol rydych eisiau clywed, neu gan rai a all ateb anghenion penodol, neu sydd â phlant eisoes, neu sydd heb blant (er enghraifft), sicrhewch fod gosodiad ar gael y proffil yn cyd-fynd a hyn. Defnyddiwch y ffigyrau 'teuluoedd cydnaws' ar y dudalen hon fel canllaw ar gyfer y pwynt cychwyn mwyaf priodol.

### Osgoi oedi

Wedi uwchlwytho proffil ar y Gofrestr, mae'n debyg y daw rhan fwyaf yr ymatebion o fewn dwy awr. Gallwch osod nodyn atgoffa i'ch hun o'r cychwyn i wneud hyn yn awtomatig ac osgoi colli gafael.

### Cysylltu â theuluoedd – gweithredwch!

Fel darpar fabwysiadwr, mae gwahaniaeth rhwng gweld proffil plentyn ar restr a gweithiwr cymdeithasol yn cysylltu â chi ar destun y plentyn hwnnw oherwydd ei fod yn meddwl y gallwch fod yn bâr da. Caiff tua chwarter y pariadau a wneir trwy Link Maker eu nodi gan weithwyr cymdeithasol sy'n dangos diddordeb mewn teuluoedd y ffordd hon ac mae'r strategaeth hon yn dod o hyd i barau o ran cyfran ar gyfer rhagor o blant a fyddai'n nodweddiadol yn aros yn hirach. Wrth weld teuluoedd ar gyfer plentyn penodol, dylai tudalennau cyntaf y canlyniadau gynnwys y teuluoedd sydd o ddiddordeb mwyaf a gellir dangos diddordeb mewn dwsinau o deuluoedd os yw hynny'n briodol.  Nid oes cyfyngiadau, gallech gysylltu â channoedd o deuluoedd posibl petai angen gwneud hynny i ddod o hyd i bâr addas ac mae popeth gennych i wneud hyn yn ddewis ymarferol.

# Cyngor ymarfer – gweithio â theuluoedd

**Y proffil**

Adolygwch broffil y mabwysiadwr gyda'ch gilydd – a yw'n ei gynrychioli'n dda? Mae gennych y fantais o weld proffiliau teuluoedd eraill a gallwch helpu i sicrhau bod proffiliau eich teuluoedd chi yn cynnwys eu holl gryfderau. Gallant roi'r gallu i chi addasu eu proffil am gyfnod os ydynt yn dewis.

**Datgan diddordeb**

Eglurwch wrth fabwysiadwyr mai dewis eich asiantaeth yw iddynt drafod â'u gweithiwr cymdeithasol cyn datgan diddordeb. Bydd hyn yn eich helpu i sicrhau bod y datganiadau diddordeb yn rhesymol a phriodol oherwydd y bydd pob datganiad yn creu gwaith i'r gweithwyr cymdeithasol ond hefyd caiff y mabwysiadwyr siom os ydynt yn datgan diddordeb mewn nifer o blant a hithau'n annhebyg y cânt bâr realistig â nhw. Eglurwch wrth fabwysiadwyr os ydynt yn datgan diddordeb mewn plant nad yw'n arwain at bâr, y gallant barhau i nodi a datgan diddordeb mewn rhai eraill.

**Cysylltu â gweithwyr cymdeithasol plant**


Eglurwch wrth eich mabwysiadwyr mai dewis yr asiantaeth yw eu bod yn dechrau trafodaethau â gweithwyr cymdeithasol yn y lle cyntaf. Unwaith eto, mae hyn er mwyn sicrhau bod cyswllt yn cael ei wneud dim ond lle mae siawns realistig y bydd y cyswllt yn cael ei ddilyn, a thrwy hynny osgoi siom.

**Mynd ar drywydd diweddaraiadau**

Pan fo trafodaeth ar waith, gall wythnosau neu hyd yn oed misoedd fynd heibio cyn y cewch ddiweddariad. Gall fod yna lawer o faterion cymhleth yn dal pethau'n ôl; asesiadau meddygol, prosesau cyfreithiol, trafodaethau parhaus gyda theuluoedd eraill. Mae'n rhesymol y dylid rhoi gwybodaeth reolaidd i fabwysiadwyr ac efallai y byddant yn gofyn wrthych pa mor fuan ac aml y dylech ofyn am ddiweddariad a ph'un ai chi neu nhw ddylai wneud hyn.

# Cofrestru ar gyfer cyfrif Link Maker

I greu eich cyfrif defnyddiwr, cliciwch y botwm ‘Cofrestru’ ar hafan Link Maker. Ar y dudalen wedyn, dewiswch yr opsiwn ‘Sefydliad’ a rhoi’r manylion gofynnol.




Cewch e-bost cadarnhau i gadarnhau eich bod wedi rhoi’r cyfeiriad e-bost cywir gyda dolen a fydd yn gwneud eich cyfrif yn weithredol.  Yna bydd angen i’ch sefydliad ddilysu eich cyfrif cyn y gallwch ddechrau defnyddio nodweddion mabwysiadu Link Maker.


Dylai’r holl staff sy’n lanlwytho proffiliau i’r CFC greu eu cyfrif defnyddiwr unigol ar Link Maker.

# Ynghylch eich tudalen hafan

Gallwch fynd at nifer o nodweddion a dolenni cyflym o’ch tudalen hafan.  Un elfen amlwg ar frig eich tudalen hafan yw’r adran ‘Plant ar Ddangos’. Mae rhai plant, a allai aros yn hirach, yn cael eu 'dangos' yma gan Link Maker.

Islaw’r adran ‘Plant ar Ddangos’, cewch ddau dab, un ar gyfer eich ‘llif newyddion personol’ ac un ar gyfer ‘Digonedd Mabwysiadu’.  Yn eich llif personol, cewch y wybodaeth ddiweddaraf ar y gymuned a diweddariadau cyfathrebu, ynghyd ag unrhyw gyhoeddiadau Link Maker a allai fod yn berthnasol i chi.

Defnyddiwch yr hidlydd llif personol i ddewis y wybodaeth yr hoffech ei gweld. Mae’r diweddariadau cyfathrebu’n dangos y gweithgareddau diweddaraf ynghylch eich achosion. Hefyd, gallwch ddarllen newyddion a diweddariadau diwethaf Link Maker yma. I ddychwelyd i’r dudalen hon o unrhyw dudalen arall, cliciwch ar ‘Hafan’ sydd ar frig y ddewislen.





Rhydd y tab ‘Digonedd Mabwysiadu’ fwrdd data digonedd mabwysiadu.  Yma, gallwch weld ac allforio data mabwysiadu a gesglir ar CFC, megis nifer y plant a barwyd o ardal benodol.

# Ychwanegu proffil mabwysiadu plentyn/grŵp brodyr/chwiorydd

Mae'r proffiliau mabwysiadu plant yn gryno at ddibenion pennu pariadau posibl. Mae'n bosibl y cewch hi'n ddefnyddiol edrych ar y proffiliau sydd ar Link Maker ar hyn o bryd i sicrhau bod y wybodaeth gywir wrth law.

I greu proffil mabwysiadu plentyn neu grŵp brodyr/chwiorydd, ewch i'r ddewislen 'Mabwysiadu' a dewis 'Ychwanegu proffil plentyn'. Dewiswch rhwng creu proffil ar gyfer achos cyfredol neu greu achos newydd. Yna gofynnir i chi gwblhau manylion sylfaenol ar gyfer y plentyn/plant. Wrth i chi gwblhau pob cam, caiff y wybodaeth a rowch ei chadw fel y gallwch gwblhau'r proffil yn hwyrach os oes angen.




Wrth i chi ddilyn y camau i greu proffil, gallwch ychwanegu anghenion y plentyn/plant, y teulu a ddymunir, ychwanegu unrhyw ardaloedd a eithrir, ychwanegu lluniau neu fideos a dewis argaeledd y proffil. Mae argaeledd y proffil yn pennu pwy ar Link Maker a gaiff weld proffil y plentyn.


Wedi creu proffil y plentyn, cewch ddechrau chwilio am fabwysiadwyr ar gyfer parau posibl (gweler adran ddiweddarach).

Os oes cysylltiad eisoes wedi'i bennu'n lleol, gallwch un ai roi'r isafswm set data (cyfeiriwch at Ganllawiau CFC) a gwneud y proffil yn agored i'ch asiantaeth chi neu osod yr achos fel cudd / ceisio cysylltiad.

**Cofiwch fod yn rhaid i bob proffil fod yn ddwyieithog cyn y cânt fynd yn fyw. Bydd gan eich asiantaeth ei phroses gyfieithu fewnol ei hun ar gyfer hyn.**

# Ychwanegu proffil mabwysiadwr

I greu proffil mabwysiadwr, ewch i'r ddewislen 'Mabwysiadu' a dewis 'ychwanegu proffil mabwysiadwr'. Dewiswch rhwng creu proffil ar gyfer achos cyfredol neu greu achos newydd. Yna gofynnir i chi gwblhau manylion sylfaenol ar gyfer y teulu. Rhowch eich prif gyswllt ar gyfer yr achos a rhoi ei fanylion yn gyntaf. Caiff y prif gyswllt hysbysiadau a newyddion e-bost ar gyfer ei gyfrif.




Wrth i chi ddilyn y camau i greu proffil, gallwch ychwanegu anghenion y plentyn y gallai eich teulu eu hateb, ychwanegu math y plentyn/plant a hoffent ac unrhyw luniau neu fideos a dewis argaeledd y proffil. Mae argaeledd y proffil yn pennu pwy a gaiff weld proffil y plentyn.

Wedi creu proffil y teulu, cewch ddechrau chwilio drwy broffiliau'r plant am barau posibl (gweler adran ddiweddarach).

Os yw pâr lleol eisoes wedi ei nodi yna gellir lanlwytho lleiafswm set data a gallwch ddewis na chaiff ond eich asiantaeth chi ei weld neu osod yr achos fel cudd / ceisio cysylltiad.

**Cofiwch fod yn rhaid i bob proffil fod yn ddwyieithog cyn y cânt fynd yn fyw. Bydd gan eich asiantaeth ei phroses gyfieithu fewnol ei hun ar gyfer hyn.**

# Mynd at eich achosion




I fynd at eich achosion, ewch i'r ddewislen 'Achosion' a dewis math yr achosion rydych yn dymuno eu gweld. Bydd y dudalen 'Achosion' wedi ei rhagosod i ddangos yr achosion rydych chi'n gysylltiedig â nhw. Fodd bynnag, gallwch hidlo eich achosion a bydd modd i'ch rheolwr hidlo'r holl achosion yn eich sefydliad, gan gynnwys y rhai a reolir gan ymarferwyr penodol.

Ar y dudalen 'Achosion', cewch drosolwg ar eich achosion, gan gynnwys unrhyw broffiliau cysylltiedig, nifer y trafodaethau, diddordeb i mewn ac allan, y gweithgaredd olaf a gofnodwyd ynghylch yr achos, argaeledd unrhyw broffiliau a nifer y trafodaethau sy'n aros am sylw gennych.

Cliciwch ar enw achos i fynd i'r dudalen 'Rheoli achos' ar gyfer yr achos hwnnw. Gallwch gysylltu eich hun at unrhyw achos yn eich sefydliad trwy glicio ar enw'r achos a dewis 'Cysylltu cyfrif' yn y dudalen 'Rheoli achosion'. Neu cliciwch ar enw proffil i fynd i'r dudalen 'Gosodiadau proffil' ar gyfer proffil penodol.

# Rheoli achos

I reoli naill ai achos plentyn neu deulu, ewch i'r ddewislen 'Achosion' (gweler adran flaenorol) a chliciwch ar enw'r achos rydych yn dymuno ei reoli. Daw hyn â chi i'r dudalen 'Rheoli achosion'. Yma cewch reoli pob agwedd ar yr achos, megis gweld trafodaethau, dogfennau ac adroddiadau neu ychwanegu/rheoli proffiliau.


Cliciwch ar y botwm 'Cysylltu cyfrif' i gysylltu at gyfrif. Yna cewch eich cysylltu at yr achos, sy'n golygu y gallwch addasu proffiliau a chymryd rhan mewn dod o hyd i deulu ar gyfer y plentyn/plant neu deulu. I ddatgysylltu eich hun oddi wrth achos, cliciwch y botwm 'datgysylltu cyfrif'. Ni chewch eich rhestru fel ymarferydd cysylltiedig, a diddymir eich caniatâd.

Mae cysylltu â mabwysiadwr yn golygu creu cysylltiad uniongyrchol rhyngoch chi a'i achos. Byddwch eich dau'n gallu hysbysu'ch gilydd am broffiliau plant a gallwch gyfathrebu'n fwy effeithiol. Byddwch yn gallu newid argaeledd y proffil. Yn ddewisol, gall mabwysiadwr roi caniatâd i chi addasu ei broffil neu reoli ei fynegiadau o

ddiddordeb. Ar gyfer achosion teulu, gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth cyswllt a gasglwyd ar gyfer y teulu yn y tab 'gwybodaeth gyswllt'.

Yn y tab 'rheoli achosion', gallwch rannu'r achos ag ymarferwyr eraill, cysylltu neu ddatgysylltu eich hun oddi wrth yr achos neu osod yr achos fel anweithredol. Nid yw achosion anweithredol yn dibynnu ar fynd ar drywydd gweithgarwch ac ni fyddant yn ymddangos yn eich rhestrau achosion ar y dudalen 'Achosion'.

# Rheoli proffil plentyn




Gellir dod o hyd i'r holl osodiadau sy'n berthnasol i broffil plentyn mewn un lle, yn nhab 'Proffiliau Mabwysiadu' y dudalen 'rheoli achosion' (gweler adran flaenorol). Yma, gallwch weld ac addasu proffil y plentyn, gweld teuluoedd cydweddus, newid y gosodiadau argaeledd, nodi prif gyswllt a dileu'r proffil (gweler adran ddiweddarach).

Dylid edrych ar bob opsiwn yng Nghymru a thrwy'r Gofrestr cyn gwneud unrhyw benderfyniadau i ehangu'r chwiliad.  Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad oes oedi diangen, os nad oes cysylltiadau priodol ar gael yng Nghymru, neu bod rhesymau penodol pam y dylid ceisio lleoliad y tu allan i Gymru ar unwaith (fel y cofnodir ar y Cynllun a Chofnod Canfod Teuluoedd), yna rhoddir ystyriaeth i fanylion y plentyn gael eu hagor ledled y DU, cyn gynted â phosibl. Ni ddylai hyn fod yn hwyrach na 3 mis o'r dyddiad y cafodd proffil llawn ei uwchlwytho i'r Gofrestr.


# Rheoli proffil teulu




Gellir dod o hyd i'r holl osodiadau sy'n berthnasol i broffil teulu mewn un lle, yn nhab 'Proffiliau Mabwysiadu' y dudalen 'rheoli achosion' (gweler adran flaenorol). Yma, gallwch nodi pryd mae'r teulu wedi'i gymeradwyo i fabwysiadu (os nad yw wedi'i nodi eisoes), gweld y proffil, gweld plant cydweddus, gosod prif gyswllt a dileu'r proffil (gweler adran ddiweddarach).

Gallwch hefyd addasu ei broffil o’r dudalen hon (gweler adran flaenorol).

# Chwilio, clustnodi a dangos diddordeb mewn proffiliau mabwysiadwyr





Wedi i chi greu proffil mabwysiadu plentyn (gweler adran flaenorol), gallwch ddechrau chwilio am leoliadau posibl.

I chwilio’r proffiliau mabwysiadwyr; ewch i’r ddewislen ‘ mabwysiadwyr’. Yma gallwch hidlo eich canlyniadau chwilio i gael parau posibl trwy ddefnyddio’r hidlwyr ar ochr dde’r dudalen. Sylwch y caiff eich canlyniadau chwilio eu diweddaru’n awtomatig.

I ddod o hyd i broffiliau addas ar gyfer proffil plentyn penodol, gallwch ddefnyddio’r hidlydd ‘trefnu yn ôl cydweddiad’. Yn syml, dewiswch y plentyn/plant o’r gwymplen a bydd eich canlyniadau chwilio’n diweddaru i ddangos y proffiliau sydd ar gael i’r plentyn/plant yn ôl pa mor gydnaws ydyn nhw.


I ddangos diddordeb mewn teulu, ewch i’r proffil teulu llawn a chlicio ar y botwm ‘Dangos diddordeb’. Bydd hyn yn gwahodd y teulu ac unrhyw ymarferydd cysylltiedig i edrych ar broffil y plentyn rydych yn datgan diddordeb ar ei ran. Yna gall y teulu (neu ei ymarferydd) ddewis dechrau sgwrs ai peidio.

Gallwch ddewis clustnodi proffiliau teuluoedd i’w gweld yn ddiweddarach. I glustnodi proffil teulu, cliciwch ar y botwm ‘Clustnodi’. Gallwch ddod o hyd i’r proffiliau hyn yn eich tab ‘clustnodi’, i chi allu mynd yn ôl atynt pan ddymunwch ddangos diddordeb.





# Chwilio, clustnodi a dangos diddordeb mewn proffil plentyn


Wedi i chi greu proffil teulu mabwysiadol (gweler adran flaenorol) neu wedi cael eich cysylltu â phroffil teulu mabwysiadol, gallwch ddechrau chwilio am barau posibl.



I chwilio proffiliau plant, ewch i'r ddewislen 'Mabwysiadu' a dewis 'Chwilio plant'. Yma gallwch hidlo eich canlyniadau chwilio i gael parau posibl trwy ddefnyddio'r hidlwyr ar ochr dde'r dudalen. Sylwch y caiff eich canlyniadau chwilio eu diweddaru'n awtomatig.




Gallwch gadw paramedrau chwilio ar ôl dewis hidlwyr ar y dudalen chwilio.  Ar ôl i chi ddewis eich hidlwyr fe welwch fotwm 'Cadw Chwiliad Newydd'. Yma gallwch gadw eich chwiliad gydag enw penodol i'w ddewis o'r hidlydd 'chwiliad wedi'i gadw' a fydd yn ymddangos ar ôl i chi gadw unrhyw chwiliad.




I ddod o hyd i broffiliau addas ar gyfer teulu penodol, gallwch ddefnyddio'r hidlydd 'trefnu yn ôl cydweddiad'.  Yn syml, dewiswch y teulu o'r gwymplen a bydd eich canlyniadau chwilio'n diweddaru i ddangos y proffiliau sydd ar gael i'r teulu yn ôl pa mor gydnaws ydyn nhw.

Gallwch ddewis dangos diddordeb mewn proffil plentyn ar ran eich mabwysiadwyr neu roi gwybod i'ch mabwysiadwr yn uniongyrchol am broffil rydych yn meddwl y bydd ganddo ddiddordeb ynddo.

I ddangos diddordeb mewn proffil plentyn, ewch i weld proffil llawn y plentyn a chlicio 'Dangos diddordeb', yna dewiswch broffil mabwysiadwr o'r gwymplen. Bydd hyn yn gwahodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn i weld proffil y teulu a bydd yn rhoi gwybod i'ch mabwysiadwr y mynegwyd diddordeb.



Yna bydd ymarferydd y plentyn yn dewis dechrau trafodaeth ai peidio.


I roi gwybod i'ch mabwysiadwr am broffil plentyn, cliciwch ar y botwm 'Hysbysu teulu' a dewiswch deulu o'r gwymplen. Yna bydd y teulu'n cael e-bost yn awgrymu eu bod yn edrych ar y proffil hwn, a gaiff hefyd ei ychwanegu at eu rhestr glustnodi.

Gallwch ddewis clustnodi proffiliau plant i'w gweld yn hwyrach. I glustnodi proffil teulu, cliciwch ar y botwm 'Clustnodi'. Gallwch ddod o hyd i'r proffiliau hyn yn eich tab 'clustnodi', i chi allu mynd yn ôl atynt pan ddymunwch ddangos diddordeb.


# Defnyddio'r dudalen diddordeb a thrafod

Bwrdd blaen ar gyfer pob trafodaeth yw'r dudalen 'diddordeb a thrafod'. Gallwch weld trafodaethau sy'n berthnasol i'r achosion rydych chi'n gysylltiedig â nhw neu weld trafodaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos yn eich sefydliad.

I fynd at y dudalen diddordeb a thrafodaethau, dewiswch 'Trafodaethau' yn y ddewislen 'Mabwysiadu'. Fel arall, cliciwch ar y symbol amlen yn y gornel dde wrth eich enw defnyddiwr. Mae'n bosibl y gall y symbol hwn ymddangos gyda rhif sy'n nodi bod gennych drafodaethau sydd angen eich sylw.





Mae nifer o hidlwyr ar gael i chi ar y dudalen hon sy'n eich galluogi i reoli pob achos yn hyblyg o un dudalen. Mae'r dudalen hon wedi ei rhannu'n bedair: angen sylw (ar gyfer y trafodaethau sy'n gofyn am sylw); trafodaethau (ar gyfer sgyrsiau parhaus); sgyrsiau a ddechreuoch (ar gyfer datganiadau o ddiddordeb sy'n aros am ymateb) a sgyrsiau atoch chi (ar gyfer datganiadau diddordeb yn eich proffil nad ydych eto wedi ymateb iddynt). Gallwch weld eich holl drafodaethau sydd wedi dod i ben drwy glicio ar y tab 'Gorffennol'.





Cewch eich tanysgrifio'n awtomatig ar gyfer trafodaethau sy'n berthnasol i achosion rydych chi'n gysylltiedig â nhw. Felly cewch ddiweddariadau drwy e-bost. Gallwch ddewis tanysgrifio neu ddad-danysgrifio o drafodaeth pan fynnoch; cliciwch y botwm 'Tanysgrifio' neu 'Dad-danysgrifio' yn y drafodaeth honno.

# Rheoli datganiadau o ddiddordeb a ddaw i chi

Os ydych yn rheoli proffil plentyn neu deulu, mae'n debyg y cewch ddatganiadau diddordeb yn dibynnu ar argaeledd y proffil. Wedi i chi gael datganiad o ddiddordeb, gallwch weld y proffil sy'n datgan diddordeb a dewis dechrau trafodaeth ai peidio gyda' botymau 'Dechrau trafodaeth' a 'Peidio â dechrau trafodaeth'.




Byddwch hefyd yn gweld botwm cydnabod pan anfonir diddordeb atoch.  Gallwch glicio ar hwn i nodi eich bod wedi gweld y diddordeb a byddwch yn dod yn ôl ato.  Bydd yn gohirio agor trafodaeth am bythefnos arall.




Os ydych chi'n dewis peidio â dechrau trafodaeth, bydd y system yn gofyn i chi am adborth i egluro pam: Os ydych chi'n dewis dechrau trafodaeth, gallwch gyfnewid negeseuon a dogfennau â'r parti arall.


Mae yna hefyd swyddogaeth i greu neges "Allan o'r Swyddfa" os yw'r ymarferydd achos a ddyrannwyd ar wyliau byrdymor. Ni ddylid defnyddio'r swyddogaeth hon ar gyfer absenoldebau tymor hwy ac yn yr achos hwn mae angen ailddyrannu'r achos nes bod yr ymarferydd yn ôl yn y gwaith.

Gweler y ddolen fideo isod ar sut i ddefnyddio'r swyddogaeth hon.

https://www.linkmaker.co.uk/pages/view/240


# Nodi bod achos yn mynd at y panel

Wedi dechrau trafodaeth ynghylch lleoliad posibl, gall y pariad fynd ymlaen i banel paru. Gallwch nodi hyn yn y drafodaeth trwy ddewis y botwm 'Mynd at banel'. Caiff derbynnydd y sgwrs wybod am hyn a chaiff eich trafodaeth ei diweddaru.




# Nodi bod pâr wedi ei wneud

Wedi gwneud pariad, ewch i'r drafodaeth berthnasol a dewis 'Nodi y cafwyd pâr'. Os ydych yn siŵr y cafwyd pâr, caiff y proffil mabwysiadu plentyn / teulu mabwysiadol ei ddileu.




Yn achos proffiliau teulu mabwysiadol, ni fydd gan y teulu fynediad wedi hynny at nodweddion dod o hyd i deulu Link Maker ond byddant yn dal i allu defnyddio ardaloedd cymunedol y safle.

Bydd dileu proffil mabwysiadu/mabwysiadwr yn diddymu'r holl ymholiadau a chysylltiadau a wnaed ac mae'n weithred barhaol. O fewn 20 diwrnod wedi i'r ddau barti gadarnhau'r pariad, caiff yr holl wybodaeth adnabod sydd ar y proffil mabwysiadu/mabwysiadwr ei dileu ac ystadegau ynghylch sut perfformiodd ein system yn unig a gedwir.

## Creu a rheoli grwpiau asiantaeth

Gallwch greu eich grwpiau asiantaeth eich hun (er enghraifft, chi, eich rheolwr a'r gweinyddwr) i'w defnyddio wrth hidlo'r canlyniadau chwilio neu osod argaeledd proffil. Gellir creu'r grwpiau hyn at eich defnydd eich hun neu eu rhoi ar gael i'r holl ymarferwyr yn eich asiantaeth.

I greu grŵp asiantaeth, ewch i'r ddewislen 'Gweinyddu' a dewis 'Rheoli grwpiau asiantaeth'. Yma, cewch weld a golygu'r holl grwpiau asiantaeth presennol a chreu rhai newydd trwy glicio ar y botwm 'grŵp asiantaeth newydd'.



# Creu adroddiadau

Mae Link Maker yn cynnig amryw adroddiadau i'ch helpu chi i ddod o hyd i leoliadau a chadw cofnodion. I ymarferwyr sy'n rhan o fabwysiadu, mae Link Maker yn cynnig adroddiad ar deuluoedd sydd ar gael, adroddiad gweithgarwch dod o hyd i deulu ac adroddiadau defnydd a pharu.


1. Mae'r adroddiad teuluoedd sydd ar gael yn cynhyrchu rhestr o'r holl deuluoedd ar Link Maker a allai fod yn bâr sy'n cydweddu â maen prawf penodol; I greu'r adroddiad hwn, ewch i'r ddewislen 'Gweinyddu' a dewis 'Teuluoedd ar gael'. Nawr, rhowch y manylion yn y meysydd megis 'math hyd yr arhosiad' a 'maint grŵp o frodyr/chwiorydd'. Gellir creu'r adroddiad hwn nifer o weithiau ar gyfer cyfuniad o feini prawf.

2. Mae'r adroddiad gweithgarwch dod o hyd i deulu yn cynhyrchu manylion y gweithgarwch dod o hyd i deulu a aeth rhagddo ar Link Maker ar gyfer plentyn/grŵp brodyr/chwiorydd penodol.  I greu'r adroddiad hwn, ewch i'r ddewislen 'Gweinyddu' a dewis 'Gweithgarwch dod o hyd i deulu'. Yn syml, dewiswch blentyn neu grŵp o frodyr/chwiorydd o'r gwymplen a chlicio 'Creu adroddiad'.

3. Gellir dod o hyd i'r adroddiadau defnydd a pharu yn y ddewislen 'Gweinyddu' a dewis 'Adroddiadau defnydd a pharu'. Trwy ddewis math yr adroddiad rydych yn dymuno ei greu yn y maes 'Adroddiad', gallwch gynhyrchu un o'r canlynol:

   - Adroddiad defnydd: trosolwg ar y proffiliau a ychwanegwyd, yr ymholiadau a wnaed ac a dderbyniwyd
   - Adroddiad pariadau plant: trosolwg ar y plant a barwyd, amseroedd aros, asiantaethau sydd ynghlwm ac sydd wedi nodi pariadau
   - Adroddiad paru teuluoedd: trosolwg ar deuluoedd a barwyd a'r asiantaethau lleoli a fu ynghlwm

# Dileu proffil plentyn





Mae dileu proffil plentyn yn weithred ddi-droi'n-ôl ac ni fydd y proffil ar gael yn syth bin. I ddileu proffil mabwysiadu plentyn, ewch i'r dudalen gosodiadau achos trwy'r ddewislen Achosion. Yn y tab 'proffiliau Mabwysiadu' cliciwch y botwm 'Dileu proffil'. Yna gofynnir i chi pam rydych yn dewis dileu'r proffil ac a

gafwyd pâr ar ei gyfer.  Ar ôl i broffiliau gael eu dileu, dylid gosod achosion fel anweithredol, bydd y system yn gofyn i chi wneud hyn ar ôl eu dileu.

# Dileu proffil teulu

Mae dileu proffil teulu mabwysiadol yn weithred ddi-droi'n-ôl a bydd yn gwrthod unrhyw ymholiadau sydd ar ôl heb eu cau a chysylltiadau ac yn diddymu'r proffil yn syth.


I ddileu proffil teulu mabwysiadol, ewch i'r dudalen gosodiadau achos trwy'r ddewislen Achosion. Yn y tab 'proffiliau Mabwysiadu' cliciwch y botwm 'Diddymu'r proffil hwn'. Yna gofynnir i chi pam rydych yn dewis dileu'r proffil ac a gafwyd pâr ar ei gyfer. Ar ôl i broffiliau gael eu dileu, dylid gosod achosion fel anweithredol, bydd y system yn gofyn i chi wneud hyn ar ôl eu dileu.




# Rheoli hysbysiadau proffil newydd


Gyda Link Maker, gallwch gael hysbysiadau e-bost pan ddaw proffiliau newydd ar gael i chi neu i'r teuluoedd rydych yn eu rheoli. Gallwch ddiwygio'r hysbysiadau hyn i ddiwallu eich anghenion chi fel na chewch ond hysbysiadau ar gyfer proffiliau sy'n berthnasol i chi neu eich teuluoedd.

Ewch i'r gwymplen enw defnyddiwr a dewis 'Rheoli gosodiadau hysbysiadau'. I droi'r hysbysiadau ymlaen, yn syml dewiswch 'dangos' yn y gwymplen 'hysbysiadau proffil newydd' a pharhau i lenwi eich meini prawf ar gyfer proffiliau y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Cadwch eich gosodiadau ac yna byddwch yn dechrau derbyn hysbysiadau.



# Rheoli gosodiadau cyfrif


Gellir dod o hyd i'r holl osodiadau sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif yn y gwymplen enw defnyddiwr.




Gallwch newid manylion ynghylch eich cyfrif, newid eich cyfrinair, enw defnyddiwr neu PIN, rheoli eich gosodiadau ar gyfer hysbysiadau (gweler adran flaenorol), gweld gwybodaeth trwydded, gweld ein gwybodaeth diogelwch neu allgofnodi o'ch cyfrif.

# Defnyddio nodweddion cymunedol

Mae nodweddion cymunedol Link Maker yn rhoi'r gallu i fabwysiadwyr rannu cyngor a chymorth cyfoedion a dod o hyd i adnoddau asiantaeth. Fel ymarferydd, gallwch helpu unrhyw fabwysiadwyr trwy ateb cwestiynau a ofynnir yn yr adran Holi ac Ateb. Gallwch ddefnyddio'r Holi ac Ateb eich hun i ofyn am gyngor gan ymarferwyr eraill neu gan deuluoedd hefyd.




Gallwch greu digwyddiadau asiantaeth a hysbysebu'r rhain i'ch mabwysiadwyr neu i deuluoedd eraill yn ogystal â chynnal ardal dan frand ar gyfer staff a theuluoedd o'ch asiantaeth i gael cymorth, adnoddau a newyddion. Cysylltwch â ni i gael manylion hyn.

Gellir defnyddio'r holl nodweddion cymunedol yn y gwymplen 'Cymuned'.

# Cymorth pellach

I gael rhagor o help a chymorth, cliciwch ar y botwm 'Help' yn y ddewislen ar y brig, wrth eich enw defnyddiwr. Fel arall, ffoniwch ein tîm cymorth ar 0843 886 0040.